

Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol (Dirybudd)

Hosbis Marie Curie, Heol
Bridgeman, Penarth, Bro
Morgannwg, CF643YR

Dyddiad yr arolygiad: 23 Ionawr
2018

Dyddiad cyhoeddi: 26 Ebrill 2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oeddiad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	8
	Ansawdd profiad y claf	9
	Cyflwyno gofal diogel ac effeithiol	14
	Ansawdd y rheolaeth ac arweinyddiaeth	21
4.	Beth nesaf?	24
5.	Sut mae AGIC yn arolygu gwasanaethau annibynnol	26
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.....	Error! Bookmark not defined.
	Atodiad B – Cynllun gwella.....	28

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Pwyslais ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn a wnawn
- Uniondeb: rydym yn agored ac yn onest yn y ffordd yr ydym yn gweithredu
- Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau mewnol ac allanol
- Proffesiynol: rydym yn gweithredu'n effeithlon, effeithiol a chymesur.

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith rydym yn anelu i:

Darparu sicrwydd:

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

1. Yr hyn a wnaethom

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o Hosbis Marie Curie ar 23 Ionawr 2018.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys tri aelod. Un rheolwr arolygu AGIC a dau adolygydd cymheiriaid clinigol. Arweiniwyd yr arolygiad gan reolwr arolygu AGIC.

Archwiliodd AGIC sut yr oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000, gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 ac yn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Ceir manylion pellach ynghylch sut rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau annibynnol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Roeddem yn fodlon bod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol. Canfuwyd gofal a thriniaeth o safon uchel ac roedd yr aelodau staff i gyd yn canolbwyntio ar ddarparu gofal a chymorth holistig sy'n canolbwyntio ar y claf. Canfuwyd meysydd arloesol mewn perthynas â meysydd dogfennaeth. Gwelwyd bod swm sylweddol o waith wedi ei wneud ers ein harolygiad diwethaf. Ar yr achlysur hwn, ychydig iawn o feysydd a ganfuwyd lle nad oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio'n llwyr â'r safonau/rheoliadau.

Canfuwyd fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd gan yr aelodau staff ddull gofalgar a chwrtais iawn o ddarparu gofal a thriniaeth holistig
- Roedd safon yr amgylchedd yn ardderchog
- Roedd y cleifion a'u perthnasau'n hapus iawn gyda'r gwasanaethau a ddarperir yn yr hosbis
- Roedd y prydau bwyd a ddarparwyd yn yr hosbis yn flasus ac yn faethlon
- Roedd y rhyngweithio rhwng yr aelodau staff a'r cleifion yn urddasol a pharchus
- Roedd llinellau cyfrifoldeb ac atebolrwydd clir

Rydym yn argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen i faeau gyda phedwar gwely gael eu haildrefnu er mwyn sicrhau preifatrwydd ac urddas
- Dylid cynnwys dewis iaith ar y ffurflen dderbyn
- Archwilio'r siartiau meddygol a'r asesiadau papur
- Defnyddio rheiddiaduron symudol yn ddiogel

Canfuwyd fod y rheoliadau'n cael eu torri yn ystod yr arolygiad hwn mewn perthynas â - dogfennaeth, staffio ac iechyd a diogelwch. Mae mwy o fanylion

ar gael yn Atodiad B. Er nad yw hyn wedi arwain at gyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio, mae disgwyl i'r darparwr cofrestredig weithredu'n ystyrlon i fynd i'r afael â'r materion hyn, gan y gallai peidio â gwneud hynny olygu nad yw'n cydymffurfio â'r rheoliadau.

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Mae Hosbis Marie Curie wedi cofrestru i ddarparu hosbis annibynnol ar Heol Bridgeman, Penarth, Bro Morgannwg, CF64 3YR.

Cofrestrwyd y gwasanaeth am y tro cyntaf ar 17 Rhagfyr 2002 gyda'r Amodau Cofrestru canlynol:

Amod 1

Ni chaiff nifer y bobl sy'n aros dros nos ar unrhyw adeg fod yn uwch na thri deg (30) ac ni chaiff nifer y lleoedd gofal dydd fod yn uwch na deuddeg (12).

Amod 2

Mae'r sefydliad wedi ei gofrestru i ddarparu Gofal Lliniarol Arbenigol.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys; cyfarwyddwr meddygol rhan amser, dau ymgynghorydd, dau uwch-feddyg (yn eu tro o ysbytai'r GIG) pedwar meddyg iau (yn eu tro o ysbytai'r GIG). Rheolwr nyrsio, nyrs arweiniol, rheolwr nyrsio cleifion mewnol, pedair prif nyrs a thîm o 33 nyrs ac 19 gweithiwr cymorth gofal rhwng dwy ward.

Yn ogystal, mae tîm o ymarferwyr perthynol i iechyd sy'n cynnwys: ymarferwr arweiniol perthynol i iechyd, therapyddion galwedigaethol, ffisiotherapyddion, un technegydd, gweithwyr cymdeithasol, cydlynnydd ysbrydol a fferylllydd sydd ar secondiad o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Cynorthwyr y staff clinigol gan dimau o staff arlwy, domestig a gweinyddol.

Mae'r gwasanaeth yn darparu gofal arbenigol i bobl Caerdydd a'r Fro sydd â chanser neu salwch arall sy'n cyfyngu ar hyd bywyd. Mae yno gyfleuster sydd â 30 gwely i gleifion mewnol i ddarparu seibiant (yn achlysurol), gofal lliniarol, rheoli symptomau, rheoli poen a gwasanaeth gofal dydd. Mae'r gwasanaeth gofal dydd yn darparu gweithgareddau, amrywiaeth o wasanaethau cymorth a therapïau amgen/cyflenwol. Yn ogystal, mae nyrsys clinigol arbenigol sy'n arwain clinigau ar gyfer adolygiadau clinigol parhaus, yn ymweld â chleifion yn eu cartrefi eu hunain ac yn cynorthwyo aelodau staff clinigol y cleifion mewnol.

Ansawdd profiad y claf

Buom yn siarad gyda'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle bo'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Roedd pob trafodaeth a gafwyd â chleifion a'u teuluoedd yn frwdfrydig ac yn gefnogol iawn o'r gwasanaethau a ddarparwyd yn Hosbis Marie Curie. Gwelwyd cleifion a'u perthnasau/gofalwyr yn cael eu trin ag urddas a pharch. Darparwyd cyfleoedd i roi adborth ynglŷn â phrofiad y cleifion / perthnasau / gofalwyr, drwy gyfrwng trafodaethau wyneb yn wyneb a holiaduron ar ôl yr ymweliadau.

Yn ystod yr arolygiad, gwahoddwyd y gwasanaeth i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion i ofyn eu barn ynglŷn â'r gwasanaethau a ddarperir. Llenwyd cyfanswm o saith holiadur. Siaradwyd hefyd â dau glaf a dau berthynas yn ystod yr arolygiad. Dyma rai o sylwadau'r cleifion:

Mae'r gofal nyrsio gan y staff i gyd yn ardderchog

Hapus iawn gyda'r gofal a ddarperir yn yr hosbis. Rhoddir sylw i anghenion yn brydlon bob amser

Mae'r bwyd yn ardderchog ond maen nhw byth a beunydd yn rhoi gormod o fwyd ac rydw i wedi gofyn ac maen nhw wedi cytuno i roi llai o fwyd gan nad ydw i'n hoffi gwastraffu bwyd

Mae'n wasanaeth ardderchog gyda staff gofalgar dros ben.

Hybu, amddiffyn a gwella iechyd

Mae'r hosbis yn canolbwyntio ar ddarparu gofal unigol sy'n canolbwyntio ar y claf. Cyflawnir hyn drwy amrywiaeth o ddulliau gan gynnwys cymorth ac arweiniad clinigol a therapiwtig gan y tîm amlddisgyblaethol.

Yn ogystal, rhoddir cymorth, cefnogaeth a chyngor i gleifion er mwyn iddynt allu rheoli eu hiechyd eu hunain a gwella'r ffordd y rheolir eu symptomau. Roedd yr hosbis yn defnyddio amrywiaeth o adnoddau therapi amgen a dulliau ymlacio er mwyn hyrwyddo lles corfforol, meddyliol, emosiynol a chrefyddol y cleifion.

Gwelsom hefyd fod ffynonellau gwybodaeth a chyngor ar gael ym mhob rhan o'r hosbis ar bynciau megis, bwyta'n iach a'r calorïau a fwyteir, ymolchi dwylo,

lleihau achosion o gwympto, dementia, atal briwiau pwyso a rhoi'r gorau i ysmegu.

Mae'r gwasanaeth hefyd yn darparu llinell gymorth gofal lliniarol 24 awr er mwyn i'r cleifion neu eu perthnasau / gofalmwyr gael ffonio i gael cyngor a chefnogaeth. Atebir y galwadau gan nyrs hyfforddedig a bydd yn ymdrin â'r cyngor ar unwaith. Os bydd angen mwy o gyngor, gall y nyrs gysylltu â'r meddyg sydd ar alwad.

Urddas a pharch

Yn ystod yr ymweliad cyfan, gwelodd pob aelod o'r tîm arolygu y cleifion a'u perthnasau'n derbyn gofal urddasol a chwrtais. Cadarnhaodd y cleifion a'r perthnasau eu profiadau cadarnhaol i aelodau o'r tîm arolygu, gan ganmol yr aelodau staff am y gofal ystyriol ac urddasol a ddarperir. Cynhaliwyd asesiad o anghenion ymataliad y cleifion i gyd wrth iddynt gael eu derbyn a rhoddwyd cymorth parhaus iddynt yn ystod eu cyfnod yn yr hosbis.

Roedd dwy ward, un ar y llawr isaf ac un ar y llawr cyntaf. Roedd cynllun y ddwy ward yr un fath, gyda chymysgedd o ystafelloedd/ baeau a oedd yn cynnwys un gwely, tri gwely a phedwar gwely. Trafodwyd yr ystafell pedwar gwely gyda'r nyrs arweiniol, yn bennaf oherwydd y diffyg preifatrwydd ac urddas am fod y cleifion yn wynebu canol yr ystafell (mewn siâp croes) a oedd hefyd yn golygu eu bod yn wynebu ei gilydd. Yn ystod yr arolygiad roedd yn amlwg bod un claf yn wael iawn a gallai hynny fod yn drallodus i'r cleifion eraill. Pe byddai'r cleifion yn eithaf da ac yn gallu sgwrsio gyda'i gilydd byddai'r bae hwn yn ddelfrydol. Trafodwyd naill ai ailwampio'r bae neu sicrhau bod cleifion priodol yn cael eu rhoi ynddo.

Roedd ystafelloedd gwely a chawodydd er mwyn i deuluoedd a ffrindiau gael aros, a oedd wedi eu lleoli ar hyd y coridor. Dywedodd y gwasanaeth wrthym fod yr adborth gan berthnasau'n mynegi y byddai'n well ganddynt i'r ystafelloedd hyn fod yn agosach at y ward. Mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r sylwadau hyn drwy drefnu i symud ystafelloedd y swyddfa i'r cyfleuster aros dros nos a byddant yn ailwampio'r swyddfeydd presennol er mwyn gwneud lle i berthnasau/ffrindiau aros. Mae hon yn enghraifft dda o wrando ar adborth a dysgu ohono.

Mae cynllun cyfan yr adeilad wedi ei ystyried yn fanwl a'i gynllunio gyda'r ffocws ar y cleifion. Roedd ystafell weddi ar bob llawr, ystafelloedd tawel, ystafelloedd cyfarfod ac roedd cyfleusterau dydd ar y llawr isaf hefyd, a oedd wedi eu dodrefnu'n fodern a chwaethus. Roedd ystafelloedd ymgynghori unigol oedd yn llawn offer priodol a ddefnyddiwyd ar gyfer triniaethau amgen ac asesiadau clinigol. Roedd man i eistedd yn dawel yno hefyd i fwynhau'r golygfeydd

eithriadol dros fae Caerdydd. Tu allan roedd y gerddi wedi eu cynllunio'n chwaethus ac yn lle hyfryd i bobl gael cerdded ac ymlacio.

Cadarnhaodd bob un o'r cleifion a ymatebodd i'r holiadur, heb eithriad, bod y gofal a'r driniaeth a ddarparwyd yn ardderchog.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r gwasanaeth ystyried y defnydd gorau o'r baeau pedwar gwely er mwyn sicrhau preifatrwydd ac urddas y cleifion.

Gwybodaeth a chydsyniad cleifion

Roedd yr hosbis wedi datblygu datganiad o ddiben a chanllaw i ddefnyddwyr a oedd yn darparu gwybodaeth fanwl ynglŷn â'r hosbis, ei ethos a'r gwasanaethau a gynigir.

Fe'n hysbyswyd fod perthnasau'n cael eu cynnwys yn y trafodaethau ynglŷn ag agweddau ar anghenion gofal y cleifion ym mhob achos, yn enwedig pan fo cleifion yn cael trafferth yn deall y wybodaeth yn llwyr. Cadarnhawyd hyn yng nghofnodion y cleifion yr edrychwyd arnynt a thrwy sgysiau gyda pherthnasau ar y diwrnod. Gwelsom mai ychydig iawn o wybodaeth ysgrifenedig oedd ar gael yn Gymraeg ar y wardiau ond yn yr ystafell aros a choridorau'r dderbynfa, roedd y wybodaeth i gyd yn ddwyieithog.

Cyfathrebu'n effeithiol

Yn ystod ein trafodaethau gydag aelodau staff ac arsylwi'r staff yn cyfathrebu â chleifion a pherthnasau, canfuwyd bod yr aelodau staff i gyd yn ymwybodol o'r angen am ddisgresiwn bob amser. Roedd swyddfeydd ac ystafelloedd dynodedig ar gael i'r staff gael siarad gyda chleifion a theulu os byddai arnynt angen cael trafodaethau preifat. Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu cadw'n ddiogel a than glo mewn ystafell staff ddynodedig pan nad oeddent yn cael eu defnyddio.

Cawsom wybod bod y gwasanaeth yn defnyddio llinell iaith y GIG os bydd claf yn cael ei dderbyn sydd angen gwybodaeth mewn iaith arall.

Roedd system ddolen gludadwy ar gael i gleifion sy'n cael trafferth yn clywed a phan holwyd yr aelodau staff, dywedwyd wrthym, os bydd gan glaf anawsterau cyfathrebu difrifol, fod bwrdd cyfathrebu wedi'i lamineiddio'n cael ei ddatblygu a bydd yn cynnwys y wybodaeth a gesglir o'r asesiadau derbyn a gan berthnasau.

Dywedodd yr holl gleifion a lenwodd yr holiadur a'r perthnasau y buom yn siarad â hwy ar y diwrnod eu bod yn cael digon o wybodaeth am y gwasanaethau a ddarperir cyn iddynt gael eu derbyn.

Cynllunio a darparu gofal

Edrychwyd ar sampl o chwech o gofnodion cleifion ar hap a gwelwyd fod y wybodaeth yn glir ac yn foddhaol.

Roedd bob un o'r cynlluniau gofal a'r asesiadau a welwyd yn benodol i anghenion a gofynion y cleifion unigol. Roedd yr asesiadau a welwyd yn canolbwyntio ar y cleifion ac yn cynnwys gwybodaeth fanwl amdanynt. Roedd rhan y cleifion a'r perthnasau'n amlwg iawn yn y ddogfennaeth. Roedd y wybodaeth wedi ei threfnu'n dda ac yn hawdd dod o hyd iddi. Ar hyn o bryd mae gan y gwasanaeth gofnodion electronig a phapur, fodd bynnag maent mewn cyfnod pontio, gyda'r dogfennau'n cael eu sganio a'u trosglwyddo i'r system electronig. Canfuwyd bod angen rhai gwelliannau mewn perthynas â sicrhau bod cofnodion papur yn cael eu diweddarau. Fel arall roeddem yn fodlon bod y cynllunio gofal o safon ragorol.

Roedd yr holl gleifion a lenwodd yr holiadur a'r perthnasau y buom yn siarad â hwy ar y diwrnod yn dweud eu bod yn teimlo bod y gwasanaeth yn gwrando arnynt a bod eu dymuniadau'n cael eu parchu pan fo hynny'n bosibl.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r gwasanaeth sicrhau bod y cofnodion papur yn cael eu cynnal i'r un safon â'r cofnodion electronig. Byddai'n fanteisiol hefyd prysuro'r newid i gofnodion cleifion cwbl electronig.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Gwelsom yr aelodau staff yn darparu gofal a chymorth mewn ffordd oedd yn hyrwyddo ac yn amddiffyn hawliau'r cleifion.

Gwelwyd yr aelodau staff yn amddiffyn preifatrwydd ac urddas cleifion wrth gyflwyno gofal neu gael trafodaethau gyda chleifion a pherthnasau. Er enghraifft, roedd y drysau i ystafelloedd ar gau wrth i'r gofal gael ei roi ac roedd yr aelodau staff bob amser yn cnocio ar ddrysau'r cleifion cyn mynd i mewn. Ein hunig bryder oedd y bae pedwar gwely a drafodwyd yn gynharach yn yr adroddiad.

Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth

Roedd yr hosbis yn gofyn am farn y cleifion a'r perthnasau ar bob cyfle posibl. Roedd modd i'r cleifion roi adborth yn ystod eu cyfnod cyfan yn yr hosbis. Gwelsom hefyd flychau sylwadau a ffurflenni adborth ar bob ward ac ar ddesg y dderbynfa. Gellir cyflwyno adborth drwy eu gwefan hefyd. Roedd straeon ac adborth cleifion ar gael ar [wefan](#) yr hosbis hefyd. Trafodwyd enghraifft o wrando ar adborth yn gynharach yn yr adroddiad mewn perthynas â symud y cyfleusterau aros dros nos i berthnasau.

Cyflwyno gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae'r gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Yn gyffredinol, mae'r aelodau staff yn darparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion ac yn cefnogi eu teuluoedd mewn modd holistig a chynhwysol.

Roedd nifer o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith er mwyn sicrhau bod cleifion yn derbyn gofal a thriniaeth bwrpasol ar gyfer eu hanghenion. Gwelwyd bod anghenion gofal, cymorth a thriniaeth y cleifion wedi eu hasesu gan yr aelodau staff a'u bod yn adolygu'r asesiadau hyn yn rheolaidd er mwyn hybu lles y cleifion.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd pob rhan o'r hosbis wedi cael asesiad a gwerthusiad risg. Roedd pob drws i fannau nad oeddent yn fannau i gleifion yn cael eu cadw ar glo ac yn ddiogel pan nad oeddent yn cael eu defnyddio. Roedd gan bob aelod o staff allwedd electronig i agor drysau penodedig megis y drysau i'r twll grisiau. Er bod pob sylwedd a defnydd glanhau'n cael ei gadw'n ddiogel a bod drysau ar glo, pan gyraeddasom roedd drysau'r cypyrddau ar agor a neb yn goruchwyllo. Cafodd hyn ei gywiro ar unwaith. Roedd y ffeiliau'n cynnwys gwybodaeth berthnasol gyfredol ynglŷn â Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd ac roeddent ar gael yn rhwydd.

Roedd gan yr hosbis amrywiaeth dda o offer ar gyfer gofal brys. Roedd diffibriliwr awtomataidd, offer ar gyfer y llwybr anadlu, masgiau ocsigen ac ocsigen ar gael. Er bod yr aelodau staff wedi eu hyfforddi i roi triniaeth frys, bydd yr hosbis hefyd yn cysylltu â gwasanaethau 999 er mwyn trosglwyddo'r cleifion i ysbytai cyffredinol priodol os bydd angen gofal arbenigol arnynt.

Yn ystod ein hymweliad, gwelsom y gallai'r cleifion naill ai ddefnyddio'r lifft i fynd i'r dderbynfa a'r gerddi neu ddefnyddio'r grisiau. Roedd mesurau diogelwch priodol ar waith er mwyn atal unrhyw ddamweiniau wrth ddefnyddio'r grisiau.

Gwelsom fod gwaith yn digwydd ar hyn o bryd er mwyn gosod system aerdymheru ac nad oedd pedwar gwely ar gael oherwydd y gwaith. Prin yr

oedd hyn yn amharu ar rediad dyddiol y ward. Gwelsom hefyd fod rheiddiaduron gwresogi symudol yn cael eu defnyddio heb eu gorchuddio mewn rhai o'r ystafelloedd a thrafodwyd y pryderon diogelwch cysylltiedig â chyfarpar o'r fath. Gwnaethom awgrymu eu bod yn cael gwared â'r rhain ar unwaith neu roi gwarchodydd amddiffynnol o'u cwmpas i atal cyswllt uniongyrchol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau diogelwch y cleifion drwy gael gwared â'r rheiddiaduron neu roi gwarchodydd amddiffynnol o'u cwmpas.

Atal a rheoli heintiau a dadheintio

Yn ystod ein hymweliad gwelsom fod yr hosbis yn lân, yn dwt a thaclus. Roedd yr adeilad wedi ei ailwampio i safon uchel gyda gwaith yn dal i fynd rhagddo ar y llawr isaf a'r system aerdymheru'n cael ei gosod drwy'r adeilad. Nid oedd unrhyw arogleuon drwg. Roedd baeau ac ystafelloedd unigol y cleifion yn cael eu glanhau bob dydd i safon uchel iawn. Gwelwyd archwiliadau glanhau ac roeddent wedi eu cwblhau'n gynhwysfawr iawn. Roedd digon o offer amddiffynnol personol ar gael yn rhwydd. Gwelwyd safonau ardderchog mewn perthynas â staff yn ymolchi eu dwylo ac roeddent yn dangos dealltwriaeth glir o bwysigrwydd hynny yng nghyd-destun cleifion sy'n agored i niwed yn feddygol. Roeddent yn ymwybodol hefyd o'r polisi Rheoli Heintiau.

Nid oedd yr aelodau staff yn cael eu hannog i wisgo gwisg swyddogol y tu allan i'r adeilad ac roedd ystafelloedd newid ar gael i'r staff. Gwelsom fod y staff yn cadw at y polisi hwn.

Gwelsom yr olchfa a'r ystafell olchi dillad ac roedd y ddwy'n drefnus ac wedi eu gosod er mwyn hybu safonau da o ran atal heintiau. Roedd yr offer wedi ei storio'n briodol ac wedi ei ddadheintio'n drylwyr. Darparwyd comedau i'r cleifion a oedd angen un a gwelwyd eu bod yn cael eu glanhau a'u storio'n briodol. Mae hyn yn hybu arferion da mewn perthynas â rheoli ac atal heintiau.

Roedd matresi'r gwelyau'n cael eu dadheintio'n rheolaidd a phob amser pan fyddai'r cleifion yn gadael ar ôl aros. Fodd bynnag, sylwyd nad oedd y soffâ glinigol yn ystafell ymgynghori Victoria mor lân ag y dylai fod.

Roedd data cyfradd heintiau ar gael ac yn cael ei adolygu gan dîm cenedlaethol canolog bob mis. Roeddem yn fodlon ar ganlyniadau'r archwiliadau.

Nid oedd y biniau offer miniog a welwyd yn yr hosbis wedi eu gorlenwi ac roeddent yn cael eu storio a'u cynnal yn ddiogel. Holwyd yr aelodau staff ynglŷn â'r weithdrefn angenrheidiol pe byddent yn cael anaf gan nodwydd ac roeddent yn deall y weithdrefn.

Rhaid i offer megis y gyrwyr chwistrell¹, (sy'n cael eu benthyg gan y GIG) gael eu golchi a bod yn lân cyn eu dychwelyd i'r ysbyty i gael eu glanhau'n arbenigol. Roedd yr offer i gynorthwyo symud a thrin megis cyntaf lithro a slings yn rai defnydd untro.

Roedd yr aelodau staff ar bob graddfa wedi eu hyfforddi mewn atal a rheoli heintiau. Roedd yr hosbis hefyd yn gweithredu ystod o bolisiâu rheoli heintiau a gweithdrefnau.

Gwelsom fod y system o atal a rheoli heintiau yn ardderchog ar y wardiau, gyda'r aelodau staff yn ymwybodol o'u swyddogaeth yn y gwaith o atal croes-heintio a chynnal safonau glendid da.

Maeth

Yn ystod ein hymweliad, gwelodd y tîm arolygu gleifion yn derbyn pryd bwyd amser cinio. Roedd pawb o'r farn bod y bwyd yn flasus a maethlon. Roedd y fwydlen yn cylchdroi bob pedair wythnos ac roedd dewis ac amrywiaeth dda o brydau. Er bod bwydlenni cyffredinol ar gael, roedd y prif gogydd hefyd yn darparu ar gyfer anghenion unigol y cleifion. Pan oedd y brif gegin ar gau, roedd byrbrydau ar gael yng nghegin y ward.

Roedd y cleifion i gyd yn cael eu hasesu mewn perthynas â'r cymorth yr oedd ei angen arnynt i fwya / yfed a gwelsom yr aelodau staff yn cynorthwyo'r cleifion mewn modd tawel, urddasol ac anymwithiol. Yn ystod yr asesiad roedd hoff bethau a chas bethau'r cleifion, eu dehurwydd a'u gallu hefyd yn cael eu cofnodi ac roedd amrywiaeth o gyllyll a ffyrç a llestri ar gael i'w cynorthwyo i fwya'n annibynnol.

¹ Mae gyrrwr chwistrell yn helpu i leihau symptomau drwy chwistrellu llif rheolaidd o feddyginiaeth yn barhaus o dan y croen.

Daethpwyd a throli bwyd o'r gegin i'r ward a chafodd y bwyd ei weini heb oedi. Roedd yn ymddangos bod dull yr aelodau staff o reoli amser bwyd yn drefnus ac yn effeithiol. Fodd bynnag, nid oedd tymheredd y bwyd yn cael ei wirio wrth ei weini i'r claf. Mae hyn yn golygu y gallai'r pryd diwethaf sy'n cael ei weini fod yn oerach nag yr argymhellir. Roedd maint y pryd a ddarparwyd yn dda. Roedd y cleifion yn cael cynnig dewis arall amser bwyd os nad oeddent yn hoffi'r bwyd.

Roedd y gegin o safon dda ac roedd y cofnodion angenrheidiol megis yr amserlenni glanhau a'r cofnodion tymheredd yn gyfredol.

Canfuwyd o sgwrs a gafwyd gyda'r prif gogydd ar y diwrnod fod diffyg ymwybyddiaeth ynglŷn ag alergenau er bod ffeil gynhwysfawr iawn ar gael. Roedd aelodau eraill o'r staff arlwy'o'n ymwybodol o'r ffeil. Gwelsom hefyd ham wedi ei goginio heb ei orchuddio yn cael ei ddadrewi yn yr oergell uwch ben bwyd arall a oedd yn cael ei storio. Cafodd hyn ei gywiro ar unwaith. Trafodwyd hyn gyda'r nyrs arwain ac awgrymwyd bod angen mwy o hyfforddiant ar gyfer rhai o'r aelodau staff arlwy'o.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r gwasanaeth sicrhau bod tymheredd bwyd yn cael ei wirio eto wrth weini'r bwyd.

Mae angen i'r gwasanaeth sicrhau bod yr holl staff arlwy'o wedi eu hyfforddi'n ddigonol ar gyfer y gwaith y disgwylir iddynt ei wneud.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd yr hosbis yn defnyddio Siartiau Cyffuriau Cymru gyfan, a oedd wedi eu llenwi'n fanwl ac yn gyson ar y cyfan er mwyn sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu rhoi i'r cleifion mewn modd diogel ac effeithiol. Ni chanfuwyd unrhyw fylchau lle'r oedd meddyginiaeth heb ei rhoi yn y cofnodion. Roedd y cofnodion yn dangos yn glir pa feddyginiaeth oedd wedi ei rhoi gan yr aelodau staff, gyda dyddiadau clir ar gyfer cychwyn ar y cyffuriau a'u gorffen. Roedd y cofnodion i gyd yn glir ac yn ddarllenadwy. Sylwyd fodd bynnag nad oedd gwybodaeth alergedd wedi ei chofnodi ar rai siartiau neu wybodaeth am effaith yr alergedd a nodwyd.

Roedd presgripsiynau'n cael eu rhoi ar gyfer meddyginiaeth gan yr aelodau staff meddygol ac roedd y feddyginiaeth yn cael ei harchebu bob dydd o fferyllfa'r ysbyty cyffredinol lleol. Roedd unrhyw gyffuriau oedd yn angenrheidiol

mewn argyfwng neu ar ben yr archeb wythnosol yn cael eu danfon o'r ysbyty o fewn yr awr fel arfer. Roedd ocsigen yn cael ei roi drwy silindrau a gwelsom eu bod yn cael eu stori'n ddiogel. Roedd fferyllydd yn gweithio ar y safle yn ystod yr wythnos ac roedd hyn yn fanteisiol tu hwnt er mwyn cael cymorth a chynghor yn rhwydd. Mae hon yn enghraifft o arfer nodedig.

Ar y diwrnod, nid oedd unrhyw gleifion yn rhoi meddyginiaethau iddynt eu hunain. Fodd bynnag, roedd cwpwrdd wedi ei gloi ger gwelyau'r cleifion er mwyn storio meddyginiaethau er mai aelodau staff fyddai'n rhoi'r feddyginiaeth o hyd. Roedd y cleifion i gyd yn cael eu hasesu er mwyn canfod a oeddent yn gallu rhoi eu meddyginiaeth iddynt eu hunain yn ddiogel.

Roedd y meddyginiaethau i gyd yn cael eu cadw mewn cypyrddau dan glo mewn ystafell driniaeth dan glo. Roedd y trolïau cyffuriau'n cael eu cloi a'u storio'n ddiogel mewn ystafell dan glo pan nad oeddent yn cael eu defnyddio. Gwelsom fod yr hosbis yn monitro ac yn cofnodi tymheredd yr ystafell a'r oergelloedd lle'r oedd y feddyginiaeth yn cael ei storio.

Edrychwyd ar y gofrestr rheoli cyffuriau ac roedd y cofnodion wedi eu nodi'n briodol.

Mae cleifion yr hosbis yn gwisgo bandiau adnabod er diogelwch. Gwelsom un claf nad oedd yn gwisgo breichled adnabod a rhoesom wybod i'r nyrs a gywirodd hyn ar unwaith.

Yn ystod ein hymweliad, ni welsom unrhyw feddyginiaeth yn cael ei gadael allan heb oruchwyliaeth a gwelwyd fod arferion da a diogel yn cael eu defnyddio wrth roi meddyginiaeth i'r cleifion.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r gwasanaeth sicrhau bod alergeddau a'u heffeithiau'n cael eu nodi'n eglur ar y siartiau meddyginiaeth.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Gwelsom fod yr aelodau staff wedi derbyn hyfforddiant er mwyn diogelu oedolion sy'n agored i niwed ac roedd arweinydd penodedig yn yr hosbis. Ni wnaethpwyd unrhyw atgyfeiriadau diogelu ers yr arolygiad diwethaf.

Rheoli gwaed

Roedd yr hosbis yn darparu trallwysiadau gwaed pan fo angen ac yn dilyn polisi Cymru Gyfan. Cynhelir profion gwaed cychwynnol i groes-gyfateb y grwpiau gwaed. Caiff y gwaed wedyn ei archebu a'i gasglu o'r ysbyty cyffredinol lleol, gydag un uned ar y pryd yn cael ei gasglu fel nad oes angen ei storio'n ddiogel ar y safle. Roedd hon yn weithdrefn a gynlluniwyd bob amser felly roedd y polisïau a'r gweithdrefnau ar waith er mwyn sicrhau bod y trallwysiad yn cael ei drawsgludo a'i roi'n ddiogel.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Roedd nifer digonol o declynnau codi, offer monitro, comodau a matresi rhyddhau pwysau ar gael i ateb anghenion y cleifion i gyd. Roedd yr holl offer a welwyd yn cael ei gadw i safon uchel ac yn cael ei wasanaethu'n rheolaidd dan gontract. Roedd profion dyfeisiau cludadwy (PAT) hefyd yn cael eu monitro'n rheolaidd. Mae pob gwely yn yr hosbis yn electronig sy'n galluogi'r cleifion i newid ei uchder a'i safle yn ôl eu dewis. Daw'r gwelyau i gyd gyda matres risg uchel er mwyn cynorthwyo i atal niwed man pwyso.

Roedd tîm cynnal a chadw ar y safle, fodd bynnag roedd contract gyda'r ysbyty cyffredinol lleol a gwneuthurwyr y gwelyau hefyd er mwyn sicrhau bod gweithdrefnau cynnal a chadw diogel a rheolaidd ar waith.

Roedd ffolder ar y safle ar gyfer cofnodi unrhyw namau ac roedd gan y cwmni gontract gydag asiantaeth allanol a fyddai'n dod i wneud unrhyw waith trwsio.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Cawsom wybod bod cleifion sydd â diagnosis neu'n dangos arwyddion o ddryswch / dementia'n cael goruchwyliaeth ychwanegol er mwyn sicrhau eu lles a'u diogelwch. Gwelsom dystiolaeth yng nghofnodion y cleifion bod asesiadau trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid (DoLS)² ar waith yn ôl yr angen.

Ymgwymerwyd â rheoli poen mewn modd cyson. Cawsai poen y cleifion ei asesu a darparwyd y feddyginiaeth yn unol â'r presgripsiwn. Roedd yr hosbis hefyd yn

² Mae'r Ddeddf Galluedd Meddyliol yn nodi mai dim ond os defnyddir gweithdrefn o'r enw trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid (DoLS) y caiff gweithwyr ieuchyd proffesiynol eich hamddifadu o'ch rhyddid, neu os bydd y Llys Gwarchod wedi rhoi caniatad. Mae hyn yn eich diogelu rhag i unrhyw un eich amddifadu o'ch rhyddid heb reswm da.

hybu'r defnydd o therapïau amgen er mwyn rheoli poen er mwyn darparu cynllun rheoli poen cynhwysfawr a holistig i'r cleifion. Defnyddiwyd therapïau megis tylino'r corff, aromatherapi a reiki er mwyn hybu lles y cleifion a mynd i'r afael â symptomau poen.

Cyflogwyd timau ffisiotherapi a therapi galwedigaethol er mwyn gwella ansawdd bywyd y cleifion ac i gyd-fynd â'r gofal clinigol.

Gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd yr hosbis yn cynnal cyfarfodydd tîm a hyfforddiant rheolaidd. Ni welwyd cofnodion y cyfarfodydd staff ar yr achlysur hwn. Roedd yr hosbis bob amser yn edrych am gyfleoedd i fod yn ddyfeisgar a darparu'r gwasanaethau gorau posibl i'r cleifion. Gwelwyd dyfeisgarwch yng nghreadigaeth siop goffi a fyddai ar gael i'r cleifion a'u hymwelwyr ei defnyddio ar y llawr isaf. Y bwriad oedd dod ag ymdeimlad o "gymuned" yn ystod eu cyfnod yn yr hosbis a galluogi ymweliadau y tu allan i amgylchedd yr ysbyty.

Roedd yr aelodau staff yn cael eu hannog i wella eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u cymwysterau hefyd ac roedd y sefydliad yn gobeithio hyfforddi aelodau staff mewn swyddogaethau nyrsio uwch megis rhagnodi a sgiliau asesu clinigol.

Rheoli cofnodion

Gwelsom fod cofnodion cleifion yn cael eu storio'n ddiogel pan nad oeddent yn cael eu defnyddio er mwyn atal unrhyw un nad oes ganddynt awdurdod rhag eu gweld. Roedd y cofnodion electronig wedi eu hamddiffyn â chyfrinair. Roedd cofnodion cleifion yn dangos cysondeb a dilyniant y mewnbyn. Eglurodd yr aelodau staff fod y system electronig yn amlygu unrhyw feysydd nad oeddent wedi eu cwblhau ac ni fyddai'n caniatáu i'r cofnod barhau heb y wybodaeth honno. Mae hon yn enghraifft o arfer nodedig. Gwelsom felly bod y cofnodion electronig yn gyflawn ac yn gofnod gwir a chywir o gyfnod y cleifion yn yr hosbis.

Ansawdd y rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun ochr yn ochr â'r Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Yn gyffredinol, gwelsom fod strwythurau rheoli, llinellau dirprwyo a llinellau atebolrwydd clir yn amlwg yn yr hosbis. Roedd y gwasanaethau a ddarperir yn Hosbis Marie Curie wedi eu rheoli'n dda iawn ac roedd gan yr holl aelodau staff rheoli weledigaeth glir ar gyfer y gwasanaeth. Roedd y cleifion yn wrth galon pob penderfyniad rheolaethol.

Cadarnhawyd yn y trafodaethau gyda'r aelodau staff bod hyfforddiant da'n cael ei ddarparu a bod dull y rheolwyr o reoli'r hosbis yn agored ac yn eglur.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Yn ystod ein harolygiad, cawsom ein cyflwyno i'r nyrs arweiniol glinigol a oedd â chyfrifoldeb yn absenoldeb y Rheolwr Cofrestredig. Roedd yn brofiadol ac yn wybodus iawn ynglŷn â gofalu am gleifion gyda chyflyrau sy'n cyfyngu ar hyd bywyd. Darparwyd yr holl wybodaeth y gofynnwyd amdani mewn modd cynhwysfawr iawn, a oedd yn dangos ehangder y wybodaeth am ddarpariaeth y gwasanaeth yn ei gyfanrwydd, nid yr agweddau clinigol yn unig.

Roedd systemau archwilio mewnol a sefydliadol grymus er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r Rheoliadau a chanllawiau arfer gorau.

Roedd llinellau rheoli ac atebolrwydd clir yn fewnol ac yn sefydliadol. Dywedodd yr aelodau staff wrthym eu bod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ac roedd ganddynt yr hyder i gwestiynu unrhyw benderfyniadau a wnaed gan y rheolwyr pe cyfyd yr angen.

Roeddem yn hyderus bod digon o gyfarfodydd yn cael eu cynnal er mwyn ymdrin â'r gwaith o redeg yr hosbis ac i raeadru gwybodaeth i fyny ac i lawr i'r holl aelodau staff.

Roedd yr uwch reolwyr amlddisgyblaethol yn mynychu cyfarfodydd Ansawdd a Diogelwch misol a oedd yn rhaeadru i lawr i dair cangen y strwythur rheoli; diogelwch cleifion, profiad cleifion a rheoli meddyginiaethau. O'r cyfarfodydd hyn, cynhaliwyd cyfarfodydd ward perthnasol er mwyn rhannu gwybodaeth.

Cynhaliwyd cyfarfodydd amlddisgyblaethol wythnosol er mwyn trafod gofal cleifion yn benodol.

Ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion wrthym yn yr holiaduron y byddent yn gwybod sut i fynegi pryder neu gŵyn ynglŷn â'r gwasanaethau a dderbynnir yn yr hosbis. Ni atebwyd y cwestiwn gan un claf.

Roedd systemau dan ar waith er mwyn rheoli cwynion. Dywedwyd wrthym fod materion yn cael eu trin ar lefel leol pan fo modd er bod ffyrdd o wneud iawn drwy'r sefydliad ehangach. Roedd manylion am gwynion yn cael eu cofnodi gan y sefydliad a phan fyddai angen, byddai'r bwrdd iechyd ac AGIC yn cael eu hysbysu. Gwelsom fod gwybodaeth ar gael i gleifion, teuluoedd ac ymwelwyr ynglŷn â sut i fynegi cwyn/pryder. Roedd manylion cyswllt AGIC hefyd ar gael yng nghanllaw defnyddiwr y gwasanaeth.

Roedd gan yr hosbis bolisiâu a gweithdrefnau a systemau monitro ar waith er mwyn monitro pryderon, cwynion a digwyddiadau. Roedd y rhain yn cael eu bwydo i systemau'r GIG ac AGIC.

Caiff unrhyw ddamwain ei chofnodi ar gronfa ddata electronig a ddangoswyd inni yn ystod yr arolygiad. Roedd yn cynnwys gwybodaeth fanwl ynglŷn â damweiniau a damweiniau y bu bron iddynt ddigwydd.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Cawsom ar ddeall gan yr aelodau staff bod hyfforddiant yn cael ei annog ac fel y cyfryw roedd un diwrnod y mis yn cael ei neilltuo i'r aelodau staff i gyd gael mynychu hyfforddiant. Rydym yn ystyried hwn yn arfer nodedig. Roedd modd i'r aelodau staff wneud cais am ddilyn hyfforddiant oedd yn berthnasol i'w swyddi. Yn ystod y dyddiau hyfforddiant staff, byddai hyfforddiant arbenigol yn cael ei ddarparu yn ôl yr angen. Edrychwyd ar y system electronig oedd ar waith a oedd yn nodi unrhyw feysydd lle nad oedd yr aelodau staff wedi cydymffurfio â'r hyfforddiant gorfodol ar eu cyfer a gwelwyd ei bod yn system gadarn a rhwydd i'w defnyddio. Mae hyn yn gymorth i'r Rheolwr Cofrestredig sicrhau bod yr aelodau staff wedi eu hyfforddi'n briodol er mwyn ymgymryd â'r gwaith gofynnol.

Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod arfarniadau staff yn cael eu perfformio mewn modd amserol a chadarnhawyd hyn gan yr aelodau staff mewn sgysiau.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Roedd arferion recriwtio cynhwysfawr ar waith o'r swyddfa sefydliadol genedlaethol. Ni wnaethom gais am gael gweld yr arferion ar yr achlysur hwn. Dim ond un swydd nyrsio oedd yn wag ar ddiwrnod ein harolygiad.

Edrychwyd ar ba aelodau staff nyrsio oedd yn gweithio pob sifft a chanfuwyd bod cyfuniad da o sgiliau a nifer dda o staff i ddiwallu anghenion y cleifion yn ystod y dydd. Roedd llai o aelodau staff yn gweithio dros nos ac roedd dwy nyrs ac un gweithiwr cymorth gofal iechyd ar bob ward. Dywedodd yr aelodau staff uwch wrthym fod aelodau staff ychwanegol ar gael pan fo aciwtedd yn uchel neu pan ddisgwylir y bydd cyflwr cleifion yn dirywio.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bôn yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a lles y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol

Gall ein harolygiadau o wasanaethau annibynnol fod â rhybudd neu gallant fod yn ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau yn y modd y maent fel arfer yn gweithredu. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad lle rhoddir rhybudd, sy'n golygu y bydd y gwasanaeth yn cael tua 12 wythnos o rybudd o'r arolygiad.

Mae adborth yn cael ei wneud ar gael i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a lefel strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn:

- Cydymffurfio â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)
- Cydymffurfio â [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#)
- Diwallu'r [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill lle y bo'n berthnasol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau annibynnol.

Ceir gwybodaeth bellach am [sut mae AGIC yn arolygu gwasanaethau annibynnol](#) ar ein gwefan.

.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni chanfuwyd unrhyw bryderon uniongyrchol ar yr achlysur hwn			

Atodiad B – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Hosbis Marie Curie

Dyddiad yr arolygiad: 23 Ionawr 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad/Sa fon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Mae angen i'r gwasanaeth ystyried y defnydd gorau o'r baeau pedwar gwely er mwyn sicrhau preifatrwydd ac urddas y cleifion.	10. Urddas a pharch	Cleifion a dderbynnir i gael gwely sy'n addas i'w hanghenion Rhoi ystyriaeth i adael i gleifion gwael symud i giwbicl os oes un ar gael Trafod/edrych ar leihau'r gwelyau yn y bae pedwar gwely gyda Thîm Gweithredol MC a'r Bwrdd Iechyd Lleol	Ceri Davies, Rheolwr IPU (Uned Cleifion Mewnol) /Paula Elson, Rheolwr yr Hosbis/Andrew Wilson Mouasher. Rheolwr Cyffredinol Adrannol	Ar unwaith/ 6 mis

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad/Sa fon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae angen i'r gwasanaeth sicrhau bod y cofnodion papur yn cael eu cynnal i'r un safon â'r cofnodion electronig. Byddai'n fanteisiol hefyd prysuro'r newid i gofnodion cleifion cwbl electronig.	8. Cynllunio a darparu gofal	Cynnal archwiliad er mwyn nodi'r maes i'w wella. Grŵp Emis i adolygu dogfennau pellach i'w hychwanegu at y system electronig.	Carolyn Gent – Nyrs Arweiniol /Ceri Davies Rheolwr Nyrsio'r Uned Cleifion Mewnol /Siwan Seaman Ymgynghorydd	Mawrth 2018
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol				
Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau diogelwch y cleifion drwy gael gwared â dyfeisiau gwresogi symudol neu roi gwarchodydd amddiffynnol o'u cwrdd. .	22. Rheoli risg ac iechyd a diogelwch 12. Amgylchedd	Gwresogyddion symudol wedi eu symud o'r mannau clinigol Uned trin aer yn cael ei gosod ar hyn o bryd - mis Mawrth 2018 Ffenestri newydd i gael eu gosod yn y mannau i gleifion ym mis Mai 2018 Arolwg gwresogi i gael ei gynnal.	Alison Morgan, Rheolwr Cyfleusterau /Lisa Miller. Pennaeth Ystadau	Ar unwaith-12 mis
Mae angen i'r gwasanaeth sicrhau bod tymheredd bwyd yn cael ei wirio eto wrth weini'r bwyd. Mae angen i'r gwasanaeth sicrhau bod yr	14. Maeth	Tymheredd y bwyd i gael ei wirio wrth ei weini. Y prif gogydd i weithio gyda'r holl staff	Wendy Walsh Prif gogydd	Ar unwaith - 3 mis

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad/Sa fon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
holl staff arlwygo wedi eu hyfforddi'n ddigonol ar gyfer y gwaith y disgwylir iddynt ei wneud.		arlwygo i sicrhau eu bod yn deall yr hyfforddiant a ddilynwyd a'i oblygiadau i'r gwaith a wneir. Dylai'r cynlluniau perfformio unigol adlewyrchu anghenion dysgu a dulliau dysgu.		
Mae angen i'r gwasanaeth sicrhau bod alergeddau a'u heffeithiau'n cael eu nodi'n eglur ar y siartiau meddyginiaeth.	15. Rheoli meddyginiaethau	Aelodau staff meddygol a nyrsio i gael cyfarwyddiadau drwy e-bost ar bwysigrwydd nodi alergeddau ar y siartiau meddygol. Yr uchod i gael ei ailadrodd ym mhob sesiwn sefydlu ac yn y diweddariadau clinigol misol. Archwiliad i gael ei gynnal mewn 6 wythnos gan reolwr nyrsio'r IPU Camau i gael eu monitro a'u hadolygu mewn cyfarfodydd rheoli meddyginiaethau.	Rheolwr Nyrsio /Siwan Seaman Ymgynghorydd	3 mis
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Ni chanfuwyd unrhyw welliannau ar yr achlysur hwn.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras):	Paula Elson
Swydd:	Rheolwr yr Hosbis
Dyddiad:	9 Mawrth 2018